**Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol – Adroddiad Blynyddol – 2017-2018**

**PWRPAS**

1. I gadarnhau’r Adroddiad Blynyddol - Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol – 2017-2018

**CEFNDIR**

2. Mae Adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y Ddeddf") yn rhagnodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru wneud cynllun yn nodi sut y maent yn bwriadu cynnal a hyrwyddo llywodraeth leol yng Nghymru. Cyhoeddwyd y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol presennol yn 2017.

3. Mae Adran 73 o'r Ddeddf hefyd yn gofyn i Weinidogion Cymru gyhoeddi adroddiad ar sut y gweithredwyd y cynigion a nodir yn y Cynllun ym mhob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud hynny ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017 -18.

**TRAFODAETH**

4. Mae'r Adroddiad Blynyddol eisoes wedi'i gytuno ar lefel swyddogol ac mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

5. Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno heddiw a gwahoddir aelodau i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Ysgrifenyddiaeth y Cyngor Partneriaeth erbyn 4 Hydref.

**GWEITHRED**

6. Unwaith y bydd yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gwblhau, caiff ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac yna'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Adran Trawsffurfio a Phartneriaethau**
**Llywodraeth Cymru**

Dyddiad: Medi 2018